**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 22 Rhagfyr 2022 am 2.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Scott Dummett | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Gail Evans | Prif Reolwr Adfywio |
| Paul Relf | Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: N L Matthews, S J Rice a W G Thomas

---

## 21 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 22 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor Datblygu Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

## 23 Y Diweddaraf am Strategaeth Coridor Glannau'r Tawe

Cyflwynodd Gail Evans a Paul Relf adroddiad manwl a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor am Strategaeth Coridor Glannau'r Tawe.

Cyfeiriwyd at gefndir y gwaith i ddatblygu'r strategaeth ddrafft yn yr adroddiad. Roedd y ddogfen ddrafft wedi'i datblygu a'i drafftio ond nid oedd wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol oherwydd y pandemig. Amlinellwyd a manylwyd ar wybodaeth, ddiweddariadau a chynnydd ar y meysydd/cynlluniau canlynol yn y cyflwyniad:

- Safle Glannau St Thomas - wedi'i gynnwys yn y fenter Adfywio Abertawe ac fel rhan o gylch gwaith Urban Splash;
- Safle Gwaith Copr yr Hafod-Morfa (GCHM) gan gynnwys y cynigion Skyline a datblygiad pontŵn GCHM;
- Adfer ac Actifadu Asedau Treftadaeth gan gynnwys Distyllfa a Chanolfan Ymwelwyr Penderyn, a ddylai agor yn y gwanwyn, Adeilad y Labordy, Tai Injan Musgrave a Vivian, ac adfer y Bont Wrthbwys;
- Ardal Adfywio Morfa Road gan gynnwys adeiladu'r ffordd gyswllt newydd, a datblygiadau tai a masnachol cymysg;
- Coridor Gwyrdd Glan yr Afon y Garreg Wen ac Eastside;
- Y Camau Nesaf a’r Ffordd Ymlaen - Uwchgynllun parhaus, adolygu safle Parcio a Theithio Glandŵr, Cynllun Gweithredu ar gyfer y dyfodol a chynlluniau a chynigion posib a fyddai'n ddibynnol ar sicrhau cyllid.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau niferus a gwnaethant sylwadau ynglŷn â'r wybodaeth a'r cynlluniau parhaus a amlygwyd yn yr adroddiad a'r cyflwyniad, ac ymatebodd y Swyddogion a'r Cyfarwyddwr yn briodol iddynt.

Nododd y Cadeirydd y byddai angen adroddiad dilynol a thrafodaeth bellach er mwyn cyfuno a diweddaru'r strategaeth flaenorol, ac o bosib byddai angen cynnal ymgynghoriad ag Aelodau a'r cyhoedd cyn i'r strategaeth gael ei chymeradwyo a'i chyfeirio at Aelod y Cabinet.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad a chyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor y flwyddyn nesaf.

## 24 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Datblygu Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd ar gyfer 2022-2023 'er gwybodaeth', gan fanylu ar yr eitemau i'w trafod yng nghyfarfodydd y pwyllgor sydd i ddod yn y Flwyddyn Newydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35pm

**Cadeirydd**